Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG

# GAN

# LYWODRAETH CYMRU

**Teitl:** **Y Banc Buddsoddi Gwyrdd**

**Dyddiad:** **12 Mawrth 2012**

**Gan:** **Edwina Hart AC, Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth**

Mae'r datganiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau am gais Llywodraeth Cymru i gael y Banc Buddsoddi Gwyrdd yng Nghymru.

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ddoe (8 Mawrth 2012) y dylai pencadlys y Banc fod yng Nghaeredin, gyda chanolfan tîm trafodion a thîm chyllido prosiectau'r Banc mewn swyddfa yn Llundain, ar y cychwyn.

Rwy'n siomedig yn naturiol i'r cais a wnaethom i Lywodraeth y DU i leoli'r Banc Buddsoddi Gwyrdd yng Nghaerdydd fod yn aflwyddiannus. Ar ran Llywodraeth Cymru a Chaerdydd, cyflwynodd fy Mhanel Sector Ariannol a Gwasanaethau Proffesiynol gais cadarn. Roedd cryn gystadleuaeth i wahodd y Banc Buddsoddi Gwyrdd, gyda 32 o geisiadau ar wahân. Unwaith y cawn yr adborth gan Lywodraeth Prydain, fe fyddaf wrth gwrs yn edrych ar hyn eto gyda Chadeirydd y Sector.

Byddwn yn parhau i wneud popeth o fewn ein gallu i gael cyfleon am dwf proffidiol yn y sector Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol yng Nghymru, gan gynnwys datblygu cynlluniau i ddynodi Ardal Fusnes Caerdydd fel unig Barth Menter gwasanaethau ariannol Prydain. At y diben hwn, byddwn yn canolbwyntio ein hymdrechion ar helpu busnesau o Gymru i fanteisio ar y cyfleoedd am fwy o swyddi fydd yn deillio o'r "Y Fargen Werdd".

Bydd Y Fargen Werdd yn rhoi benthyciadau gwyrdd ar gyfer technolegau arbed ynni, ac mae ganddi'r potensial i greu llawer mwy o swyddi na'r 50-70 sy'n cael eu creu gan y Banc Buddsoddi Gwyrdd. Mae nifer o gwmnïau o Gymru yn ymwybodol

o’r cyfleoedd a ddaw yn y dyfodol gyda’r Fargen Werdd, ac mewn sefyllfa dda i gefnogi menter y Fargen Werdd.